# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Iau, 8 Tachwedd 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
M. Bull, Rheolwr Rhanbarthol - Datblygu Economaidd
C. Owen, Community Regeneration Assistant
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Swyddfa'r Arweinydd, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin: 3.30 - 4.00 pm

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| E. Dole | 3 - Cymorth Ariannol o'r cronfeydd grantiau canlynol: Y Gronfa Cyllid a Dargedir a Chronfa'r Degwm - Capel Annibynnol Caersalem | Gweinidog rhan-amser y Capel |
| E. Dole | 3 - Cymorth Ariannol o'r cronfeydd grantiau canlynol: Y Gronfa Cyllid a Dargedir a Chronfa'r Degwm - Cyngor Cymuned Pontyberem | Wyrion/wyresau yn mynychu Ysgol Pontyberem |

## 2. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 30AIN HYDREF 2018.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 30 Hydref, 2018 yn gofnod cywir.**

## 3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: GRONFA CYLLID A DARGEDIR A'R CRONFA'R DEGWM

(NODER: Yn gynharach, roedd y Cynghorydd E. Dole wedi datgan buddiant yn y cais a gyflwynwyd gan Gapel Annibynnol Caersalem am gymorth ariannol o Gronfa'r Degwm a'r cais a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Pontyberem am gymorth ariannol o'r Gronfa Cyllid a Dargedir)

**PENDERFYNWYD**

**3.1 PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa'r Degwm a'r Gronfa Cyllid a Dargedir yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
|---|---|
| Opera Ieuenctid Caerfyrddin a'r Cylch | £3,000.00 |
| Clwb Rygbi Sanclêr | £3,000.00 |
| Sgiliau Adeiladu Cyfle Cyf. | £7,500.00 |
| Matthew Davies | £150.00 |

**3.2 byddid yn cyfeirio'r ceisiadau a gyflwynwyd gan Gapel Annibynnol Caersalem a Chyngor Cymuned Pontyberem at y Bwrdd Gweithredol er mwyn i'r Bwrdd benderfynu arno**

## 4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI.

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 5. CRONFA LIFOGYDD BUSNESAU SIR GAERFYRDDIN

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol geisiadau am gymorth gan Gronfa Lifogydd Busnesau Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Lifogydd Busnesau Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
|---|---|
| Cresselly Arms – Pontargothi | £4670.00 |
| Majka Polish Shop, Llanybydder | £1135.49 |
| Swains Commercial (rhan 2) - Llanybydder | £2562.52 |
| Safle Carafanau Argoed Meadow - Cenarth | £4184.47 |
| Eryl Jones Accountant – Llanybydder | £1714.66 |

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL

DYDDIAD